Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru

Cynllun Cydraddoldeb Anabledd

2006-2009

Crynodeb Gweithredol

South Wales
Fire and Rescue Service

Gwasanaeth Tân ac Achub
De Cymru

Codi Ymwybyddiaeth - Lleihau Perygl

Gwybodaeth Cysylltu

Am ragor o wybodaeth am y Cynllun neu i gael copi ar ffurf wahanol cysylltwch â:

Vicky Gregory
Uned Amrywiaeth
Gwasanaeth Tân & Achub De Cymru
Neuadd Glanelái
Pont-y-clun
Rhondda Cynon Taf
CF92 9XA

Ffôn Testun: 01443 232200

Ffacs: 01443 232180

E-bost: swfs@southwales-fire.gov.uk

Ffôn: 01443 232000

Cyflwyniad

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru (GTaADC) yn anelu at brif-ffrydio cydraddoldeb ac amrywiaeth ym mhob peth mae'n ei wneud ac mae'n dathlu amrywiaeth ei staff a datblygu gwasanaethau dinesydd ganolog i bobl De Cymru. Bydd y Gwasanaeth yn hyrwyddo cydraddoldeb cyfleon, yn rhwystro gwahaniaethu anghyfreithlon, hyrwyddo perthynas dda rhwng pobl â'i gilydd ac yn ymdrechu i chwarae rhan hanfodol wrth hyrwyddo cyfiawnder cymdeithasol ac adfywiad yng Nghymru.

Mae'r Gwasanaeth wedi ymrwymo i sylweddoli gweledigaeth y Llywodraeth o gydraddoldeb anabledd fel y'i ceir yn ei adroddiad 'Gwella Cyfleoedd Bywyd Pobl Anabl' (Uned Strategaeth, 2005), sef:

> ***'Erbyn 2025, dylai fod gan bobl anabl ym Mhrydain y cyfleoedd a'r dewisiadau llawn i wella eu hansawdd bywyd a dylent gael eu parchu a'u cynnwys fel aelodau cyfartal yn y gymdeithas'.***

Mae'r Gwasanaeth yn sylweddoli y gall wneud cyfraniad enfawr at symud rhwystrau yn yr amgylchedd ac mewn agweddau sydd ar ffordd cyfleoedd cyfartal i bobl anabl, drwy fynd i'r afael â'r modd y mae'n cyflawni ei wasanaethau, sut mae'n cyflogi pobl a thrwy osod ei ddylanwad ar y gymuned yn gyffredinol.

Y Cefndir

Yn Rhagfyr 2005 newidiwyd y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd (DGA) 1995 i osod dyletswydd ar y Gwasanaeth i hyrwyddo cydraddoldeb anabledd.

Mae'r Ddeddf yn gosod yr hyn a elwir yn **Ddyletswydd Gyffredinol** i roi sylw dyladwy i'r angen am

- ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon a hyrwyddo cyfleoedd cyfartal i bobl anabl.

Bydd angen ystyried hefyd

- dileu aflonyddu ar bobl anabl
- hyrwyddo agweddau cadarnhaol a'r angen i annog pobl anabl i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus.

Mae'r **Ddyletswydd Benodol** yn diffinio fframwaith i'w ddefnyddio i gwrdd â'r Ddyletswydd Gyffredinol. Y brif elfen yw cynhyrchu **Cynllun Cydraddoldeb Anabledd**. Diben datblygu cynllun yw adnabod ffyrdd y gellir cael gwared ar wahaniaethu anghyfreithlon a bod yn rhagweithiol wrth hyrwyddo cydraddoldeb anabledd.

Yn y broses o gynhyrchu'r Cynllun Cydraddoldeb Anabledd hwn, mae'n rhaid i'r Gwasanaeth:

- Gynnwys pobl anabl wrth gynhyrchu'r cynllun a datblygu'r cynllun gweithredu.
- Nodi sut bydd yn casglu a dadansoddi tystiolaeth i gael gwybodaeth yn garn i'w weithredoedd a chadw llygad ar gynnydd.
- Gosod allan sut bydd yn asesu effaith ei weithgareddau presennol a'r rhai a fwriedir ganddo ar bobl anabl.
- Cynhyrchu cynllun gweithredu am y tair blynedd nesaf.
- Adrodd am ei gynnydd bob blwyddyn, ei adolygu a gwneud newidiadau priodol ar y cynllun o leiaf bob tair blynedd.
- Dangos ei fod wedi cymryd y camau mae wedi ymrwymo iddynt, a chyflawni'r canlyniadau priodol.

Mae'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd (1995) yn diffinio anabledd fel:

> Mae gan rywun anabledd os oes ganddo neu ganddi amhariad corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith niweidiol sylweddol a thymor hir ar ei allu neu ei gallu i gynnal gweithgareddau normal o ddydd i ddydd.

Cynllun Cysylltiad

Cafodd yr amcanion a osodir yn y Cynllun eu datblygu mewn partneriaeth gyda phobl anabl o Gaerdydd a Chlymblaid y Fro o Bobl Anabl, a phobl anabl o ardal ein Gwasanaeth. Mae'r Cynllun yn ganlyniad nifer o weithgareddau cysylltiad rhwng Ebrill a Medi 2006.

Gyda'n gilydd cynhyrchwyd ar y cyd gennym y gweithredoedd a amlinellir yn y Cynllun a sefydlwyd amcanion ystyrlon. Gosodir canlyniadau'r sesiynau mewn adroddiad cryno, wedi ei gyhoeddi ar ein safle we a'i rannu gyda Gwasanaethau Tân ac Achub eraill a chydag aelodau o'r grŵp gwasanaethau argyfwng a hyrwyddir gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Ceir amserlen o'r gweithgareddau cysylltiad yn Atodiad 1 y Cynllun.

Amlinelliad o'r Broses Ddatblygu

Wrth ddatblygu ein CCA rydym wedi:

- Mabwysiadu Model Cymdeithasol Anabledd fel ein prif egwyddor wrth wraidd ein holl waith
- Cynnwys pobl anabl wrth gynhyrchu'r cynllun a datblygu'r cynllun gweithredu.
- Nodi sut byddwn yn casglu a dadansoddi tystiolaeth i gael gwybodaeth yn garn i'n gweithredoedd a chadw llygad ar gynnydd.

- Gosod allan sut byddwn yn asesu effaith ein gweithgareddau presennol a'r rhai sydd gennym mewn golwg ar bobl anabl.
- Cynhyrchu Cynllun Gweithredu ar gyfer y tair blynedd nesaf.
- Datblygu mecanwaith i adrodd ar ein cynnydd bob blwyddyn, ei adolygu a gwneud newidiadau priodol ar y cynllun hwn o leiaf bob tair blynedd.
- Dangos ein bod wedi cymryd y camau priodol ac wedi ymrwymo i gyflawni canlyniadau priodol.

Y Themâu Allweddol o'r Gweithgareddau Cysylltiad

Dyma oedd y themâu allweddol a godai o'r gweithgareddau cysylltiad:

- Nid oedd pobl anabl yn ymwybodol o swyddogaeth ataliol a diogelwch cymunedol y Gwasanaeth Tân a Diogelwch
- Nid oedd pobl anabl yn ymwybodol o'r cyngor diogelwch, y wybodaeth a'r offer arbenigol a gynigir gan y gwasanaeth
- Nid oedd pobl anabl yn ymwybodol o'r cyfleon gwaith oedd ar agor iddynt o fewn y Gwasanaeth, a dylid defnyddio gwasg anabledd er mwyn hysbysebu swyddi perthnasol

- Yn gyffredinol teimlai pobl anabl nad oed y Gwasanaeth Tân ac Achub ond yn cyflogi pobl heini a holliach
- Gellid datblygu swyddogaethau cyflogi mewn cydweithrediad â'r anabl, er mwyn cyflawni'u hanghenion yn well
- Sylweddolai rheolwyr a staff werth cynnal digwyddiad rhannu gwybodaeth yn cynnwys pobl anabl
- Mae angen datblygu dulliau ymgynghori er mwyn datod rhwystrau rhag cynhwysiad. Dylid neilltuo adnoddau digonol er mwyn hwyluso cysylltiad pobl anabl
- Gofynnir am gysylltiad cyson tymor hir â'r anabl
- Teimlai staff â nam arnynt y byddent ar eu hennill o gyfrannu i'r rhwydwaith staff cydraddoldeb i bobl anabl
- Dylid cynnwys astudiaethau achos yn pwysleisio profiadau cadarnhaol staff anabl fel rhan o bob ymgyrch recriwtio
- Dylai'r Gwasanaeth gynyddu ymwybyddiaeth o gyfleuster ffôn testun ar gyfer pobl sydd â nam ar eu clyw er mwyn iddynt gysylltu â '999'
- Ymrwymodd y rhai a gymerodd ran i rannu'r wybodaeth a gawsant trwy gysylltiad â'r Gwasanaeth trwy eu rhwydweithiau

- Roedd angen hyfforddiant cydraddoldeb i bobl anabl ar draws y Gwasanaeth, i gynnwys y Model Cymdeithasol o Anabledd
- Dylid datblygu modelau rolau, mentoriaid a lleoliadau gwaith ar gyfer pobl anabl
- Dywedwyd yn aml wrth bobl anabl eu bod yn berygl a chawsant eu gwahardd rhag safleoedd. Gallai'r Gwasanaeth gyfrannu at chwalu'r chwedl honno

Ceir adroddiad cryno ar ein gwefan
www.southwales-fire.gov.uk

Arfer Presennol ynghylch Cydraddoldeb i Bobl Anabl

- Ymladdwyr tân wedi ymddeol, â llawer ohonynt wedi datblygu namau, yn cael eu hadfer i swyddi cynorthwyo'r gwasanaeth
- Uned Iechyd Galwedigaethol ar y safle
- Pwysleisiodd arolwg staff gynnydd yn nifer y staff a ddatgelodd anabledd
- Cynnal cysylltiad ag ymgeiswyr aflwyddiannus ar gyfer swyddi gweithredol
- Derbyniodd yr holl reolwyr hyfforddiant cydraddoldeb ac amrywiaeth
- Sgriniwyd pob polisi a dadansoddi'r rhan fwyaf ynglŷn â'u heffaith ar gydraddoldeb

- Noddi Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Anabledd Cymru 2006
- Cydweithio â'r Ganolfan Ddarganfod er mwyn asesu anghenion staff â dyslecsia
- Gwasanaeth cynghori ar gyfer yr holl staff
- Cydweithio ag Ymddiriedaeth Shaw Trust er mwyn annog pobl i wneud lleoliadau profiad gwaith yn y gwasanaeth, canolbwynt lleoliadau'r dyfodol fydd troi lleoliadau o'r fath yn swyddi parhaol
- Arolwg staff a gynhaliwyd yn 2006 gan ofyn i staff ddatgan anabledd. Rhaid cymryd camau i hyrwyddo hyder wrth adrodd anabledd
- Defnyddir ffurflenni monitro cyfleoedd cyfartal sydd yn cynnwys monitro anabledd yn ystod camau ceisio ac ymadael cyflogaeth unigolyn (2.(2) (d.i)
- Cydweithio â Meddwl am Wragedd
- Sefydlir Tîm Cynnal Cydweithwyr
- Sefydlir peirianwaith a choladir data er mwyn monitro anabledd yn achos staff presennol, ymgeiswyr ar gyfer swyddi, ymgeiswyr llwyddiannus, staff sy'n gorffen gweithio
- Yn hanesyddol cyflwynwyd gwybodaeth yn flynyddol a'i chyhoeddi gan yr Adran ar gyfer Cymunedau a

Llywodraeth Leol. Datganolwyd y cyfrifoldeb hwn erbyn hyn i Lywodraeth Cynulliad Cymru

- Mae'r Ganolfan Hyfforddi a Datblygu'n cydymffurfio â'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd
- Amlinella dogfen arfer da ar gyfer dyslecsia sut y gwneir cyfrif o staff sydd yn dioddef o ddyslecsia mewn cyfweliad, yn ystod hyfforddiant a thrwy'r ganolfan asesu a datblygu
- Hyfforddiant integredig yn cynnwys yr holl staff gweithredol a chynorthwyol
- Sicrha Pwyllgor y Sbectrwm fod anghenion pobl anabl yn cael eu cyflenwi trwy ddatblygu llenyddiaeth a gweithgareddau addysgiadol
- Digwyddiad cyfnewid gwybodaeth Diogelwch Cymunedol a Diogelwch Tân
- Monitrir Gwiriadau Diogelwch Tân Cartref mewn perthynas ag anabledd (2.(2)(d.iii)). Yn 2005 rhoddwyd 13,000 canfodydd mwg i bobl mewn cymunedau lle ystyriwyd bod yna risg
- Gwaith partneriaeth â Chyngor Cymru dros Weithredu Gwirfoddol wrth weinyddu Grant Diogelwch Cymunedol
- Corfforir gofynion y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd (1995) yn adolygiadau diogelwch tân.

- Yn achos y bobl y bernid eu bod yn wynebu'r perygl mwyaf, enillodd y gwasanaeth nawdd er mwyn rhoi system o daenellwyr dŵr yn y cartref iddynt
- Ymgyrch cynyddu ymwybyddiaeth o oblygiadau Gorchymyn Diogelwch Tân (2006)
- Mae Swyddog Cysylltu Cymunedol yn gyfrifol am ymgynghori ar draws y Gwasanaeth
- Timau partneriaethau a fydd yn pontio â'r gymuned ac yn targedu pobl anabl a'u grwpiau.
- Mae Ymladdwyr Tân ar orsafoedd yn gysylltiedig â gweithgareddau cymunedol a digwyddiadau er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth a gostwng risg marwolaethau trwy dân neu anafiadau.
- Cafwyd cysylltiad â'r gymuned ac ymgynghoriad wrth ddatblygu **Cynllun Lleihau Risg** y Gwasanaeth
- Cynhelir cyfarfodydd Uwch Reolwyr yn y gymuned
- Pleidwyr Cydraddoldeb i Bobl Anabl
- Cynrychiolir Pleidwyr Amrywiaeth ar brif fyrddau a byrddau uwch reolaeth, ac ataliant bob polisi, proses, penderfyniad, menter a phrosiect newydd.
- Sefydlwyd rhwydwaith staff cydraddoldeb i bobl anabl
- Datblygwyd gwefan i'r W3C. Dogfennau PDF safon AA wedi'u tagio er mwyn hwyluso mynediad. Mae'r gwaith

graffig yn sefydlog ar y wefan

- Enillodd y Wefan y Nod Grisial ar gyfer eglurder
- Sefydlwyd peirianwaith cyfathrebu er mwyn cyfarfod â gofynion iaith a mynediad
- Mae statws Marc Siarter yn cynnwys boddhad cwsmeriaid sy'n cael ei fonitro yn ôl y math o gŵyn, megis un yn ymwneud â'r iaith Gymraeg neu fater mynediad
- Defnyddir llinell iaith a hyfforddir staff ar draws y gwasanaeth i gyrraedd y Gwasanaeth
- Cwblhawyd archwiliadau mynediad ar bob un o'n 50 o adeiladau a gorsafoedd, a chorfforwyd gwelliannau yn y cynllun blynyddol. Nid yw tua 40 o'r adeiladau hyn yn caniatáu mynediad llawn ar hyn o bryd
- Datblygwyd patrwm ar gyfer gorsaf dân fodern.

Nodau ac Amcanion Allweddol y Cynllun

Nodau Cyflogi:

- Cynyddu'r nifer o bobl anabl yr ydym yn eu cyflogi
- Darparu gwasanaethau cynorthwyol sydd yn trin y materion y mae pobl anabl yn eu hwynebu

Cyflawnwn hyn trwy:

- Ddefnyddio Gwasg yr Anabl a mudiadau anabl er mwyn hysbysebu swyddi
- Cydweithio â'n 'cyfeillion beirniadol' er mwyn adnabod dulliau effeithiol o newid canfyddiad presennol gweithiwr nodweddiadol
- Adolygu'n defnydd o'r symbol dau dic ar hysbysebion swyddi a gwneud ei ystyr yn eglurach
- Cyfarfod â mudiadau cynorthwyo gweithwyr er mwyn ymchwilio ffyrdd o annog pobl anabl i wneud lleoliadau profiad gwaith, a byrdwn lleoliadau'r dyfodol fydd troi lleoliadau o'r fath yn raddol yn swyddi parhaol
- Trefnu seminar er mwyn rhannu gwybodaeth am y modd y gellir gwneud addasiadau rhesymol er mwyn cadw Ymladdwyr Tân anabl
- Cyfarfod â staff o'r Ganolfan Ddarganfod, yn y Barri, er mwyn cael rhagor o wybodaeth ar y modd y gall eu gwasanaethau helpu pobl sydd â dyslecsia.

- Datblygu ein cynllun cynorthwyo mentora cydweithiwr er mwyn annog gweithwyr anabl i gymryd rhan fel mentoriaid ar gyfer staff anabl arall.
- Ceisio recriwtio gwasanaethau pobl anabl o du allan i'r Gwasanaeth er mwyn rhoi cefnogaeth fentora lle y bo angen.
- Nodi ardaloedd addas i'w troi yn lleoedd tawel di-waith
- Sicrhau bod cynghorwyr anabl sy'n hyrwyddo'r Model Cymdeithasol o Anabledd ar gael i staff anabl
- Rhoi Hyfforddiant Cydraddoldeb i Bobl Anabl i staff anabl
- Tanlinellu manteision datgelu i staff er mwyn cyflawni gofynion mynediad
- Hyrwyddo dealltwriaeth o'r Model Cymdeithasol o Anabledd trwy roi Rhaglen Hyfforddi Cydraddoldeb i Bobl Anabl i'r holl staff.
- Gofyn y cwestiwn penodol 'a oes unrhyw ofynion mynediad gennyt?', yn hytrach na gofyn 'a oes gennyt anabledd?' gan nad yw'r cwestiwn hwn yn rhoi unrhyw wybodaeth a all fod o ddefnydd mewn cyfweliad neu fel gweithiwr
- Gofyn i ymgeiswyr a ydynt yn barod i deithio yn hytrach na gofyn a ydynt yn gallu gyrru
- Casglu gwybodaeth o gydraddoldeb i bobl anabl yn well

Nodau Darparu Gwasanaeth:

- Hyrwyddo gwell ymwybyddiaeth o gyngor a gwybodaeth i bobl anabl ynglŷn â diogelwch tân
- Ceisio gwybod pryderon diogelwch tân yr anabl yn weithredol
- Ceisio ffyrdd o ateb y pryderon hyn
- Gostwng risg marwolaeth neu anaf

Amcanion:

Cyflawnwn hyn trwy:

- Ddatblygu ein dulliau monitro data er mwyn darganfod tueddiadau a phatrymau mewn perthynas ag anabledd
- Cynyddu ymwybyddiaeth o'n harchwiliadau diogelwch cartref yn rhad ac am ddim i bobl anabl a'u mudiadau
- Cynnal digwyddiad blynyddol i gyfnewid gwybodaeth
- Cyhoeddi llenyddiaeth i ddatblygu ymwybyddiaeth pobl anabl o'u hawliau ynglŷn â diogelwch tân, er enghraifft, i ofyn am Gynllun Ymgilio Brys Personol
- Argymell bod systemau cyfathrebu dwy ffordd yn ofynnol wrth fannau lloches.
- Hyrwyddo ymwybyddiaeth o lifftiau di-fwg y gellir eu defnyddio os bydd yna dân.

- Sicrhau bod ymdrechion ymgynghori yn seiliedig ar gysylltu, a bod anghenion mynediad pobl anabl yn cael eu cyflenwi'n llawn.
- Cynyddu ymwybyddiaeth o'r cyfleuster ffôn testun ar gyfer pobl sydd â nam ar eu clyw ac sydd am gysylltu â '999'
- Gwahodd aelodau o fudiadau mynediad lleol i'n cynghori wrth inni adeiladu neu addasu adeiladau sy'n bodoli eisoes

Canlyniadau

Mae'r 10 canlyniad yr hoffem eu cyflawni fel a ganlyn:

- Penderfyniadau mwy deallus a pholisïau a gwybodaeth am y gymuned a diogelwch tân wedi'u targedu'n well.
- Llunio polisïau mewn modd mwy agored
- Cynnydd yn nifer yr anabl sydd yn ceisio am swyddi.
- Cynyddu'r hyder i ddatgelu anabledd, rhywbeth a fydd yn arwain at weithlu mwy cynrychiadol
- Gwell canfyddiad, bodlonrwydd a hyder yn y gwasanaethau a gynigiwn
- Mwy o gysylltiad â defnyddwyr y gwasanaeth ac aelodau'r cyhoedd, a mwy o gyfraniad ganddynt wrth ddatblygu'r gwasanaeth a pholisïau

- Gwell mynediad i'n gorsafoedd a'n hadeiladau
- Datblygu ymwybyddiaeth ymhlith gwneuthurwyr polisïau o faterion perthnasol i grwpiau neilltuol.
- Gwell cydlynu rhwng byrddau cyfarwyddwyr
- Gwella'n gallu i ddarparu gwasanaethau addas a hawdd eu cyrraedd, a chyflawni'n holl swyddogaethau mewn modd sydd yn cyfarfod â gwahanol anghenion.

Casgliad

Mae ein cynllun Cydraddoldeb Anabledd yn gosod ein hamcanion cydraddoldeb, sydd wedi'u datblygu fel canlyniad o weithgareddau cysylltiadol amrywiol yn ystod 2006.

Ar ôl trafodaeth â phobl anabl, eu mudiadau a'r Comisiwn Hawliau Anabledd, teimlwn yn hyderus y gallwn gyd-weithio gyda'n gilydd i chwalu'r rhwystrau i gynhwysiant, ac i ddatblygu'r Gwasanaeth i gwrdd ag anghenion pobl anabl. Rydym yn hyderus bod y cunllun yma'n cwrdd â gofynion y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 2005 fel y'i diwygiwyd.